# I'r dref



Tric a Chlic 3



Mae Siôn yn siarad ar y ffôn.
"Dere Siôn, brysia. Rydyn ni eisiau mynd i'r dref," dywedodd Sianco, ei ffrind.





Mae Siôn yn gorffen siarad ac yn taflu ei fag dros ei ysgwydd.



Aeth y ddau allan o'r tŷ.





Aeth y ddau i ddal y bws i'r dref.



Yna, aeth y ddau i'r parc –
siglo, siglo ar y siglen ...





ac i lawr y sleid yn sydyn.




"Ble nesaf?" gofynnodd Sianco.
"I siopa," atebodd Siôn.





Cerddodd y ddau ling di long i lawr y stryd.



"Ble nesaf?" gofynnodd Sianco.
"I'r sinema," atebodd Siôn.






Rhedodd y ddau fel y gwynt i lawr y stryd.



Rhaid oedd prynu creision a siocled yn siop y sinema cyn mynd i mewn i weld y ffilm – ffilm am siarc ...





siarc â dannedd miniog!